

## Cwestiynau Cyffredin

### Pam bod angen cyfleusterau i drin ein sbwriel?

Mae'r safleoedd tirlenwi a ddefnyddir ar hyn o bryd bron â bod yn llawn, ac ychydig iawn o ardaloedd addas sydd ar ôl yng Nghymru ar gyfer safleoedd tirlenwi newydd.

### Onid yw gweithrediadau tirlenwi yn ffordd ratach o ddelio â gwastraff gweddilliol?

Yn hanesyddol, dyma oedd y gwir, ond nid dyma fydd yr achos am lawer hirach. Yn Ewrop mae treth tirlenwi yn £40 y dunnell a bydd hyn yn gyffredin yn y DU cyn bo hir. Trwy drin gwastraff i gynhyrchu trydan, mae gwastraff yn dod yn adnodd gwerthfawr.

### Os na allwn roi gwastraff gweddilliol mewn safleoedd tirlenwi, beth allwn ni ei wneud ag ef?

Mae nifer o opsiynau ar gael. Rhaid i ni droi'r gwastraff yn adnodd. Mae'r blaenoriaethau wedi'u gosod trwy hierarchiaeth gwastraff a luniwyd gan y Llywodraeth, lleihau, aildefnyddio, ailgylchu a chompostio ac yna adfer gwerth o beth na ellir ei aildefnyddio na'i ailgylchu.

### Beth allaf i ei wneud?

Gall pawb wneud gwahaniaeth mewn materion gwastraff. Mae'n hanfodol lleihau'r cynnydd mewn gwastraff a gall pawb leihau faint o wastraff a gynhyrchant. Gyda'r gwastraff a gynhyrchir, aildefnyddiwch beth sy'n ymarferol, ac yna ceisiwch ailgylchu a chompostio cymaint â phosibl gan ddefnyddio cynlluniau'r Cyngor sydd wedi'u datblygu ar eich cyfer. Unwaith y byddwn wedi ailgylchu a chompostio gymaint ag y gallwn, rhaid dod o hyd i ddatrysiad i'r gwastraff sy'n weddill. Mae'n bwysig bod gan y cyhoedd ddiddordeb yn y mater, gan na fydd y broblem yn diflannu ar ei phen ei hun.

### Ydy trin gwastraff gweddilliol yn well na'i roi mewn safle tirlenwi?

Mae safleoedd i'w tirlenwi yn prysur ddiffannu yng Nghymru ac fe gydnabyddir nad ydyw'n ddewis cynaliadwy. Mae asesiad ôl-troed carbon cyflawn WRATE yn dangos bod rheoli gwastraff gweddilliol trwy safleoedd tirlenwi yn unig, yn cael yr effaith carbon mwyaf. Pan fo gwastraff yn dadelfennu mewn safle tirlenwi, yn absenoldeb aer, cynhyrchir methan, sef un o'r prif ffactorau sy'n cyfrannu at y newid yn yr hinsawdd. Er bod rheoliadau tirlenwi yn nodi y dylai'r methan gael ei gasglu i gynhyrchu egni, dim ond 10% ar y mwyaf a gesglir. Mae trin gwastraff gweddilliol yn lleihau'r angen am safleoedd tirlenwi. Er bod gwaddodion o'r amryw opsiynau trin, bydd faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi yn lleihau'n sylweddol.

### Trwy ddefnyddio'r technolegau hyn, oni fydd cyfraddau ailgylchu a chompostio'n cael eu heffeithio?

'Mae profiad Ewropeaidd yn dangos bod adfer ynni o wastraff gweddilliol (gan gynnwys trwy losgi) yn cydweddu â chyfraddau ailgylchu uchel. Felly gall llosgi a Thriniaeth Thermol Pellach ffurfio rhan o'r strategaeth reoli gwastraff, ond ddim ar draul ailgylchu a lleihau gwastraff.

'Mae tir mawr Ewrop, Denmarc a'r Iseldiroedd yn dargyfeirio mwyafrif y gwastraff o safleoedd tirlenwi, gan gyflawni'r cyfraddau ailgylchu uchaf, ond yn ddibynnol iawn ar losgi gwastraff gweddilliol er mwyn delio ag ef.'  
(Rhaglen Cefnogi Technolegau Newydd DEFRA 2007)

## Frequently Asked Questions

### Why do we need facilities to treat our rubbish?

Landfill sites that are in use at the moment are nearly full and there are very few areas available in Wales that are suitable for new landfill sites.

### Aren't landfill operations a cheaper way to deal with residual waste?

Historically this has been the case, but this will not be the case for very much longer. In Europe landfill tax is £40 per tonne and this will become commonplace in the UK soon. By treating waste to produce electricity, waste becomes a valuable resource.

### If we cannot landfill residual waste, what can we do with it?

There are a number of options available. We have to turn waste into a resource. The priority is set through the waste hierarchy set by Government, reduce, reuse, recycle and compost and then recover value from what cannot be reused or recycled.

### What can I do?

Everyone can make a difference when it comes to waste issues. It is essential to reduce waste growth and everyone can reduce the amount of waste they produce. With the waste that is generated reuse what is practical and then try to recycle and compost as much waste as possible using the Council schemes that have been developed for you. Once recycling and composting has been maximised, a solution has to be found for the remaining waste. It is important that the public take an interest in this issue, as this problem will not go away.

### Is residual waste treatment better than landfill?

Landfill capacity in Wales is fast running out and it is widely recognised that this is not a sustainable option. The full WRATE carbon footprint assessment shows that managing residual waste through landfill alone generates the highest carbon impact. When waste decomposes in landfill in the absence of air, methane is produced which is one of the main contributing factors of climate change. Although landfill regulations state that the methane should be collected to generate energy, the collection rate is at best only 10%. Residual waste treatment reduces the need for landfill. Although there are residues from the variety of treatment options, the amount of waste sent to landfill will significantly reduce.

### By using these technologies, won't recycling and composting rates be affected?

'European experience illustrates that recovery of energy from residual waste (including by incineration) is compatible with high recycling rates. Therefore both incineration and Advanced Thermal Treatment can form part of an overall waste management strategy but not at the expense of waste reduction and recycling.

'Mainland Europe, Denmark and the Netherlands divert the most waste from landfill, achieving the highest recycling rates but have a high reliance on incineration to deal with residual waste.'  
(Defra New Technologies Supporter Programme 2007).

Partneriath ar gyfer Rheoli Gwastraff Cynaliadwy  
A Partnership for Sustainable Waste Management  
[www.prosiectgwyrd.co.uk](http://www.prosiectgwyrd.co.uk)



## Cwestiynau Cyffredin

### Beth yw safiad y DU ar drin gwastraff gweddilliol?

Byddai unrhyw ddull o drin gwastraff yn cael ei wneud o dan ganllawiau amgylcheddol llym, a fydd yn cael eu monitro trwy'r broses drwyddedu a chynllunio. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi Trywydd Ynni Adnewyddadwy Cymru, sy'n amlygu'r ynni sy'n tarddu o wastraff fel elfen allweddol o'r strategaeth ynni adnewyddadwy

### Beth sydd gan y Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff i'w ddweud am drin gwastraff gweddilliol?

"Nid yw gallu'r DU i adfer ynni gwerthfawr o'i wastraff wedi ei ddatblygu yn ddigonol. Rhaid cael cynllunio cyflym a chomisiynu ffatrioedd ac mae angen technolegau a ffatrioedd priodol i gynnal tri maes polisi hanfodol: cyrraedd targedau gwro tirlenwi anodd, mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ac ateb yr angen am ynni trwy gyflenwad diogel a chynaliadwy. Mae Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff (CIWM) yn erfyn ar y llywodraeth i gydnabod y cyfraniad pwysig y gall ynni o wastraff ei wneud wrth fynd i'r afael â'r materion hyn i gymryd camau ymarferol brys i gefnogi'r ehangiad." (CIWM (2006) Datganiad CIWM ar adfer ynni o wastraff, Chwefror 2006)

### Beth yw agwedd Asiantaeth yr Amgylchedd at drin gwastraff gweddilliol?

Cred yr Asiantaeth fod angen i ni leihau faint o wastraff a gynhyrchir. Mae ailgylchu, compostio a thrin gwastraff gweddilliol oll yn opsiynau rheoli y bydd yn rhaid i'r gymdeithas eu hystyried er mwyn creu strategaethau rheoli gwastraff cynaliadwy i reoli'r mynydd o wastraff yr ydym yn ei greu.

### Beth sydd gan Masnach a Buddsoddi y DU i'w ddweud am gael Ynni o Wastraff?

Mae ynni o wastraff yn gasgliad pwysig o dechnolegau, gyda'r gallu i ddarparu ynni adnewyddadwy a datrysiaid i'r broblem gynyddol o reoli gwastraff. (Cyhoeddiadau UKTI: Ynni o Wastraff, canllaw i gyfleoedd yn y DU)

### A yw trin gwastraff gweddilliol yn cael ei wneud mewn llefydd eraill?

Mae nifer o awdurdodau'r DU yn mynd i'r afael â gwastraff gweddilliol. Mae Ynni o Wastraff a phrosesau adfer ynni eraill wedi eu defnyddio'n helaeth yn Ewrop a Sgandinafia ers peth amser. Mae Denmarc, yr Iseldiroedd, Ffrainc a Sweden yn trin o leiaf 25% o wastraff trwy gynlluniau ynni o wastraff. Defnyddir Triniaeth Fiolegol Fecanyddol hefyd yn helaeth yn Ewrop, gyda ffatrioedd yn yr Almaen, yr Eidal ac Awstria ac mae'r dechnoleg yn dod yn fwyfwy poblogaidd yn y DU.

### Oni fydd cyfleusterau trin gwastraff gweddilliol yn stopio pobl rhag ailgylchu?

Na fydd. Mae pob awdurdod wedi ymrwmo at ailgylchu a chompostio cymaint o wastraff â phosibl. Mae pob awdurdod wedi buddsoddi'n helaeth i ddatblygu cynlluniau casgliadau ymyl y ffordd ac i wneud ailgylchu a chompostio mor hawdd â phosibl i bawb. Mae Project Gwyrdd yn edrych ar ddatrysiaid i wastraff gweddilliol, wedi i ni ailgylchu a chompostio gymaint â phosibl ym mhob ardal.

## Frequently Asked Questions

### What is the UK stance on residual waste treatment?

Any form of waste treatment would operate under strict environmental guidelines, which will be monitored through the licensing and planning process. The Welsh Assembly Government has published a renewable Energy Route Map, which clearly highlights energy derived from waste as a key element to the renewable energy strategy.

### What does the Chartered Institute for Waste Management say about residual waste treatment?

"The UK's capacity to recover valuable energy from its waste is under-developed. Rapid planning and commissioning of appropriate plants and technologies is needed to support three vital policy areas: meeting tough landfill diversion targets, combating climate change and meeting energy demand through secure and sustainable supply. The Chartered Institute for Waste Management (CIWM) is urging government to recognise the important contribution of energy from waste in addressing these issues and to take urgent practical steps to support its expansion." (CIWM (2006) CIWM Position statement Energy recovery from waste, February 2006).

### What is the Environment Agency's stance on residual waste treatment?

The Agency believes we need to minimise the amount of waste produced. Recycling, composting and residual waste treatment are all management options that society will need to consider using in order to create sustainable waste management strategies to manage the mountain of waste we are creating.

### What does the UK Trade and Investment say about Energy from Waste?

Energy from waste is an important suite of technologies, with the ability to provide both renewable energy and a solution to the growing problems of waste management. (UKTI Publications: Energy from waste, a guide to opportunities in the UK)

### Is residual waste treatment used else where?

Many UK authorities are addressing the problem of residual waste. Energy from Waste and other energy recovery processes have been used extensively in Europe and Scandinavia for some time. Denmark, the Netherlands, France and Sweden treat at least 25% of waste through energy from waste schemes. Mechanical Biological Treatment is also used extensively in Europe, with plants in Germany, Italy and Austria and the technology is becoming more popular in the UK.

### Won't having a residual waste treatment facility stop people recycling?

No, each authority is committed to recycling and composting as much waste as possible. There has been massive investment by each authority to develop kerbside collection schemes and to make recycling and composting as accessible as possible to all. Prosiect Gwyrdd is looking at a solution to residual waste, after recycling and composting has been maximised in each area.

Partneriath ar gyfer Rheoli Gwastraff Cynaliadwy  
A Partnership for Sustainable Waste Management  
[www.prosiectgwyrdd.co.uk](http://www.prosiectgwyrdd.co.uk)